

# **Canllaw i gyfuno'ch cyllid gyda phobl eraill**

## **Taliadau Uniongyrchol – Eich Bywyd, Eich Dewis**

Tachwedd 2019

## Nod y canllaw hwn

---

Mae'r canllaw hwn ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth y telir amdano ac sy'n dymuno cyfuno'u cronfeydd arian gyda phobl eraill er mwyn rhannu costau a chael gwell canlyniadau.

Bwriad y canllaw yw'ch cynorthwyo drwy'r broses o gyfuno'ch cronfeydd arian, gan gynnwys dod o hyd i rywun i gyfuno'ch arian â nhw, sut i greu trefniant cyfuno arian a sut i derfynu'r trefniant.

Bydd enghreifftiau hefyd o sut i ddiwallu'ch anghenion gofal a chymorth drwy drefniant cyfuno arian.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn deall y gall y penderfyniad i gyfuno cronfeydd arian fod yn un dychrynlyd i rai pobl ac mae rhai'n cael eu gorlethu gan y wybodaeth ar y dechrau.

Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth sydd ei hangen ar bobl fel chi i ddod i'r penderfyniad cywir i chi.

Mae gennym dîm Taliadau Uniongyrchol profiadol yn y cyngor sydd yno i'ch cynorthwyo ag unrhyw ymholiadau neu wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Penderels, sefydliad sy'n arbenigo mewn cynorthwyo pobl sy'n dewis derbyn Taliadau Uniongyrchol. Mae Ymddiriedolaeth Penderels wrth law i ddarparu cymaint o help a sicrwydd ag sydd ei angen arnoch.

# Cynnwys

---

	<b>Tudalen</b>
1. Cyflwyniad	4
2. Ffrydiau ariannu	5
3. Beth mae cyfuno cronfeydd arian yn ei olygu?	6
4. Ar beth y gellir gwario cronfeydd arian cyfun?	7
5. Beth yw manteision cyfuno cronfeydd arian?	8
6. Sut ddylwn i fynd ati i gyfuno cronfeydd arian?	9
7. Rheoli'r arian	12
8. Cyflogaeth	14
9. Cytundebau	16
10. Yswiriant	17
11. Terfynu'r cytundeb	18
12. Rhestr wirio Dechrau Arni	20
13. Templedau enghreifftiol	21
14. Enghreifftiau positif	23
15. Ble i fynd am fwy o wybodaeth	25
16. Geirfa	26
17. Atodiadau	27

Mae cyfuno cronfeydd arian yn golygu'ch bod yn rhoi rhywfaint o'ch arian tuag at ariannu un neu fwy o bobl eraill er mwyn diwallu'ch anghenion a'ch nodau personol ar y cyd.

Nid yn unig y gall hyn roi gwell gwerth am arian i chi, ond gall hefyd eich galluogi i rannu datrysiadau gyda'ch cyfoedion, a'ch helpu i wneud y pethau sy'n bwysig i chi yn fwy effeithiol.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys manylion ynglŷn â sut i gyfuno'ch cronfeydd arian, boed hynny drwy Daliadau Uniongyrchol, neu drwy ddefnyddio'ch arian eich hun. Mae'n rhoi manylion ynglŷn â sut i greu trefniant â rhywun arall, sut i reoli'r arian a sut i derfynu cytundeb.

Rydym hefyd wedi darparu enghreifftiau gan bobl sydd â phrofiad o gyfuno'u cronfeydd arian.

## Ffrydiau ariannu

---

Efallai fod nifer o wahanol ffrydiau ariannu yr hoffech ystyried eu cyfuno er mwyn diwallu'ch anghenion cymorth, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol a/neu'ch arian personol eich hun.

### **Taliadau Uniongyrchol**

Taliad Uniongyrchol yw arian a roddir i chi gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i'ch helpu i fod yn annibynnol a'ch galluogi i ddiwallu'ch anghenion cymorth a'ch nodau personol yn eich dulliau dewisedig.

Gallwch ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn hyblyg, ac fe gewch fwy o ddewis a rheolaeth nag y byddech yn ei gael pe bai'r cyngor yn gwneud y trefniadau hyn drostoch chi. Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflawni nifer o wahanol nodau, a chaiff y rhain eu cytuno a'u hysgrifennu yn eich cynllun cymorth.

Cofiwch, rhaid i'r arian a wariwch fod o fewn eich cyllid presennol (sef cyfanswm yr arian y gyddoch y byddwch yn ei dderbyn fel Taliadau Uniongyrchol).

Rhaid i chi ddefnyddio'ch Taliad Uniongyrchol i dalu am y cymorth sydd ei angen arnoch. Ni allwch wario'ch Taliad Uniongyrchol ar unrhyw beth na chytunwyd arno, a rhaid i'ch trefniadau eich cynorthwyo i fod yn annibynnol a'ch cadw'n ddiogel ac yn iach.

Am fwy o wybodaeth am Taliadau Uniongyrchol gofynnwch am gopi o:  
Llyfryn gwybodaeth Taliadau Uniongyrchol – Eich Bywyd, Eich Dewis.

### **Cronfeydd arian personol**

Mae rhai pobl yn dewis defnyddio rhywfaint o'u harian eu hunain i dalu am eu gofal a'u cymorth, neu ei ychwanegu at arian y maent yn ei dderbyn fel Taliad Uniongyrchol.

Os ydych yn defnyddio'ch arian eich hun, gallwch ei wario fel y mynnwch. Fodd bynnag gall hwn fod yn ganllaw defnyddiol.

## Beth mae cyfuno cronfeydd arian yn ei olygu?

---

Mae cyfuno cronfeydd arian yn golygu defnyddio'r arian sydd ar gael i chi i gyd neu'n rhannol gyda phobl eraill er mwyn prynu gwasanaeth, offer, contract gydag asiantaeth neu gyflogi Cynorthwy-ydd Personol, a rennir i ddiwallu anghenion, dyheadau a nodau cyffredin yn fwy effeithiol ac effeithlon.

## Ar beth y gellir gwario cronfeydd arian cyfun?

Gellir gwario cronfeydd arian cyfun ar amrywiaeth o bethau a chi sy'n penderfynu ar y ffordd orau o wario'r arian sydd ar gael i chi:

- Efallai y byddwch chi a'ch ffrindiau'n dewis cyfuno'r arian sydd ar gael i gyflogi Cynorthwy-ydd Personol, mynd i ffwrdd gyda'ch gilydd am seibiant, trefnu gweithgareddau yn ystod y dydd y byddwch yn eu mwynhau, neu wneud pethau cymdeithasol gyda'ch gilydd.
- Efallai y byddwch yn dewis defnyddio'r arian i ddefnyddio gwasanaethau presennol, neu drwy sefydlu gwasanaeth eich hun.

Cofiwch, wrth gyfuno cronfeydd arian mae angen i chi allu dangos fod eich anghenion a gytunwyd ac anghenion y bobl yr ydych yn cyfuno arian â nhw yn cael eu diwallu'n effeithiol.

### Cynorthwywyr Personol

Cynorthwy-ydd Personol yw rhywun yr ydych yn ei ddewis i'w gyflogi i'ch cynorthwyo â gofal personol a/neu dasgau eraill. Yn dibynnu ar yr hyn sydd angen help arnoch i'w wneud, efallai y bydd Cynorthwy-ydd Personol yn gallu'ch cynorthwyo i gyflawni ystod eang o ganlyniadau personol.

**Enghraifft:** Pan ddaeth pedwar ffrind coleg at ddiwedd eu cwrs, penderfynodd y pedwar fyw gyda'i gilydd. Roedd angen help Cynorthwy-ydd Personol ar y pedwar ohonynt i gyflawni tasgau gofal personol ac yn gyffredinol i fyw bywydau annibynnol a diogel. Cyfunodd y pedwar eu Taliadau Uniongyrchol i rannu costau cymorth, yn hytrach na bod pob unigolyn yn gwneud hynny'n unigol.

### Defnyddio cymorth cymunedol a chymdeithasol

Os oes angen cymorth y telir amdano i fynd allan i'r gymuned, defnyddio gweithgareddau cymdeithasol a/neu cyfarfod â phobl, adlewyrchir hyn yn eich cynllun cymorth.

Gall cyfuno'ch Taliadau Uniongyrchol ar gyfer y math hwn o gymorth eich galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau na fydddech wedi eu hystyried neu wedi gallu eu fforddio fel arall.

Er enghraifft:

- Mynychu gweithgareddau hamdden, megis clwb chwaraeon neu gampfa
- Llogi lleoliad i gynnal grŵp cymdeithasol, neu logi cludiant i gyrraedd lleoliad
- Sefydlu grŵp cymdeithasol i gyfarfod â phobl newydd, neu glwb sy'n ymwneud â diddordeb penodol
- Sefydlu busnes bach
- Sefydlu cyfle a rennir, megis garddio, neu reoli rhandir
- Llogi Cynorthwy-ydd Personol neu aelod arall o staff i'ch helpu i wireddu'r opsiynau uchod

**Enghraifft:** Yn hytrach na mynd i ganolfan ddydd draddodiadol, penderfynodd grŵp o ffrindiau gyfuno rhywfaint o'r adnoddau a oedd ar gael i fod yn gyfrifol am randir, ariannu deunyddiau hanfodol a phrynu cymŵrth i'w helpu.

## Beth yw manteision cyfuno cronfeydd arian?

---

### **Gall cyfuno cronfeydd arian roi llawer gwell gwerth am arian i chi**

Wrth gyfuno'ch arian gyda phobl eraill rydych yn rhannu costau pethau yr ydych yn talu amdanynt, a fydd yn eich helpu i wneud i'r arian sydd ar gael i fynd ymhellach.

### **Gallwch fod yn llawer mwy creadigol yn y ffordd yr ydych yn diwallu'ch anghenion a chyflawni'ch nodau a'ch canlyniadau personol.**

Gall rhoi pennau at ei gilydd a meddwl ar y cyd eich helpu i feddwl am syniadau mwy creadigol, a fydd nid yn unig yn fwy cost effeithiol, ond yn eich helpu i gael mwy allan o'ch cyfleoedd.

### **Bod yn fwy annibynnol**

Gallai cyfuno'ch cronfeydd arian eich helpu i roi cynnig ar bethau nad oes gennych yr hyder i'w gwneud ar eich pen eich hun.

Gallech wario'ch arian cyfun ar rywbeth sy'n eich helpu i oresgyn rhwystrau yr ydych yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Efallai'ch bod yn teimlo nad oes unrhyw beth addas i chi yn eich ardal leol ar hyn o bryd, felly gallech ystyried sefydlu rhywbeth gyda phobl yr ydych yn eu hadnabod. Er enghraifft, gallech sefydlu gweithgaredd eich hun fel grŵp.

### **Cynyddu'ch rhywdweithiau cymdeithasol a rhannu gweithgreddau gyda phobl sydd â diddordebau tebyg i chi**

Gall bod yn rhan o grŵp neu bartneriaeth sydd â diddordebau tebyg i chi fod yn ffordd fwy boddhaol a chymdeithasol o gwrdd â phobl newydd a'ch helpu i gyflawni'ch nodau personol.



## Sut ddylwn i fynd ati i gyfuno cronfeydd arian?

### Gofalwch fod yr holl arian priodol mewn lle

Os ydych yn gymwys i gael Taliadau Uniongyrchol mae gennych hawl i gyfuno'ch taliadau gyda phobl eraill.

Os ydych eisoes yn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (naill ai fel Taliad Uniongyrchol neu wasanaeth a reolir, megis asiantaeth gofal), mae'n bosibl y bydd angen i chi gael adolygiad cyn y gallwch ystyried cyfuno'ch Taliadau Uniongyrchol.

Gallwch ofyn am adolygiad drwy ffonio 'Un Pwynt Mynediad' Cyngor Sir y Fflint ar 03000 858 858 neu drwy siarad â'ch Cydgysylltydd Gofal os yw'ch cymorth yn cael ei drefnu gan Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol.

Os nad ydych yn derbyn gwasanaeth ar hyn o bryd, ond yn teimlo'ch bod yn gymwys, gallwch drefnu bod Asesiad Gofal Cymdeithasol yn cael ei gynnal drwy ffonio 'Un Pwynt Mynediad' Cyngor Sir y Fflint ar 03000 858 858 neu drwy siarad â'ch meddyg teulu.

### Penderfynu gyda phwy y dylech gyfuno'ch arian

Mae penderfynu pwy yr ydych am gyfuno'ch arian â nhw yn dibynnu ar ba agweddau o'ch cymorth yr ydych am ddefnyddio'ch arian.

Efallai y byddwch am feddwl am unigolyn neu bobl yr ydych eisoes yn eu hadnabod ac yn dod ymlaen yn dda â nhw, rhywun sydd ag anghenion cymorth tebyg i chi, neu pethau cyffredin fel diddordebau.

Er enghraifft, os ydych yn mynychu gwasanaethau dydd, efallai y bydd gan rai o'r bobl eraill ddiddordeb mewn cyfuno arian a rhannu gweithgareddau. Yn yr un modd, efallai fod gennych gymdogion neu ffrindiau coleg a fyddai'n ystyried cyfuno arian â chi.

Byddai Ymddiriedolaeth Penderels, sef y sefydliad cymorth Taliadau Uniongyrchol lleol, yn hapus i siarad â chi ynglŷn â chyfuno'ch arian, ac efallai y bydd hyd yn oed yn gallu'ch cyflwyno i bobl sy'n debyg i chi.

Gellir cysylltu ag Ymddiriedolaeth Penderels ar: 01352 706235

### Penderfynu sut i ddefnyddio'ch cronfeydd arian cyfun i ddiwallu'ch anghenion

Ar ôl i chi benderfynu gyda phwy i gyfuno'ch arian, bydd angen i chi drafod sut yr ydych am ddefnyddio'r arian sydd ar gael i ddiwallu'ch anghenion ar y cyd. Dylech sicrhau fod pawb dan sylw'n fodlon â'r ffordd y caiff hyn ei wneud. Mae'n bwysig sicrhau fod pob aelod o'r trefniant cyfuno arian yn gallu diwallu eu hanghenion mewn ffordd sy'n gyfforddus iddyn nhw.

Efallai y byddwch am drafod:

- A yw pawb yn hapus â'r trefniant sy'n cael ei gynnig?
- Gofalu fod pawb eisiau'r un pethau
- Ydych chi am gyflogi un neu fwy o Gynorthwywyr Personol?

- Bydd angen i chi gytuno ar y pethau y bydd y Cynorthwy-ydd Personol a gyflogir yn eich helpu i'w cyflawni. Er enghraifft, ydych chi am gael un i'ch cynorthwyo â thasgau gofal neu i gyflawni nodau a chanlyniadau penodol?
- Bydd angen i chi benderfynu faint sydd angen i chi ei dalu i'r Cynorthwy-ydd Personol. Bydd Ymgynghorydd Byw'n Annibynnol o Ymddiriedolaeth Penderels yn gallu'ch helpu i wneud hynny.
- Bydd angen i chi benderfynu sut y byddwch yn recriwtio Cynorthwy-ydd Personol. Er enghraifft, a fyddwch yn hysbysebu mewn papur newydd lleol, mewn ffenestr siop, yn y ganolfan swyddi, neu a ydych yn adnabod rhywun a allai fod yn addas. Eto, bydd Ymddiriedolaeth Penderels yn gallu'ch cynorthwyo â'r penderfyniadau hyn.
- A fyddwch yn cyflogi staff yn uniongyrchol neu drwy asiantaeth gofal?
- A oes angen rhywun â sgiliau, arbenigedd neu brofiad penodol arnoch? Os ydych am gyflogi rhywun ar gyfer gweithgaredd penodol, a oes angen cymhwyster neu brofiad arnynt yn y maes hwnnw?
- Bydd angen i chi sicrhau fod pob aelod o'ch grŵp cyfuno arian yn hapus â'r unigolyn a ddewiswch i ddarparu'ch gofal a'ch cymorth ac i fod yn Gynorthwy-ydd Personol neu ddarparwr gofal.
- Mae angen i chi benderfynu sut y caiff yr aelod o staff ei hyfforddi a'i reoli a chytuno ar hyn gyda phawb dan sylw. Efallai y bydd gofyn i chi ystyried a oes gan yr unigolyn ddigon o brofiad blaenorol, neu a hoffech iddynt gael hyfforddiant pellach neu astudio ar gyfer cymhwyster penodol.

### **A hoffech ddefnyddio'ch cronfeydd arian cyfun i wneud gweithgareddau cymdeithasol neu i fynd allan a gwneud pethau?**

- Os ydych am gyfuno Taliadau Uniongyrchol, gofalwch yn gyntaf eich bod wedi cael caniatâd i ddefnyddio'r arian yn y modd hwnnw.
- Os ydych am greu gweithgaredd newydd, sut mae hwn yn mynd i weithio a beth ydych yn gobeithio'i gyflawni?
- A fydd angen i chi logi lleoliad?
- A fydd y grŵp ar agor i fwy o bobl?
- Sut fyddwch yn hyrwyddo'r cyfle i fwy o dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol gymryd rhan?
- Os yw'r gweithgaredd cymdeithasol eisoes yn bodoli, a fyddwch yn defnyddio'r arian i gyflogi rhywun i'ch cynorthwyo chi a'r unigolyn neu'r grŵp yr ydych yn cyfuno arian â nhw i wneud y gweithgaredd?

### **Sut fyddwch chi'n rheoli'ch arian?**

- Faint o arian fydd pob un ohonoch yn ei gyfrannu at y trefniant?
- Os yw pawb sy'n rhan o'r trefniant cyfuno arian yn derbyn yr un lefel o gymorth, mae'n bwysig sicrhau fod pawb yn cyfrannu'n deg.

- Bydd angen i chi wneud trefniadau ar gyfer cadw'r arian. Er enghraifft, efallai y byddwch am agor cyfrif banc a rennir.

## Storio cronfeydd a rheoli arian

Ar ôl i bob aelod o'ch grŵp cyfuno arian benderfynu faint y bydd pob aelod yn ei gyfrannu at y trefniant, dylech agor cyfrif banc ar wahân ar gyfer storio'r arian cyfun. Bydd hyn yn eich galluogi i fonitro'r arian a chadw golwg ar y ffordd yr ydych yn ei ddefnyddio.

Bydd y Taliadau Uniongyrchol a ychwanegwch at y gronfa yn dal i gael eu monitro yn unol â threfniadau monitro ariannol Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint.

### Cyfrifon

#### **Agor cyfrif banc unigol**

Cyfrif banc arferol yw hwn, fel cyfrif cyfredol safonol. Caiff y math hwn o gyfrif ei reoli gan un person sy'n barod i'w enw ymddangos ar unrhyw gardiau arian a/neu lyfrau siec.

#### **Agor cyfrif banc grŵp neu gymunedol**

Mae hwn yn gyfrif arbennig ar gyfer grwpiau.

Bydd cyfrif fel hyn yn galluogi mwy nag un aelod o'r grŵp cyfuno arian i gael mynediad at yr arian yn y cyfrif.

Er mwyn agor cyfrif unigol neu gyfrif grŵp, bydd angen i chi wirio gyda'r banc pa gyfrif yw'r mwyaf addas ar gyfer eich anghenion, a pha wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w agor. Bydd angen i chi hefyd wirio a oes unrhyw gostau banc yn gysylltiedig â'r cyfrif, ac os felly, cynnwys y rhain yn y costau cyffredinol.

#### **Agor cyfrif gydag undeb credyd**

Mae Undebau Credyd yn ddewis arall yn lle banciau'r stryd fawr a gallant ddarparu cyfrif i chi ar gyfer eich arian cyfun.

Mae'n bwysig holi'ch Undeb Credyd lleol i weld pa gyfrifon y maent yn eu cynnig, ac unrhyw gostau cysylltiedig, gan fod pob un yn wahanol.

Am fwy o wybodaeth am Undebau Credyd yng Nghymru, ac i ddod o hyd i'ch Undeb Credyd lleol edrychwch ar wefan Undebau Credyd Cymru sef:  
[www.creditunionsofwales.co.uk/](http://www.creditunionsofwales.co.uk/) neu cysylltwch â nhw ar 0845 872 3467

#### **Agor cyfrif a reolir gydag Ymddiriedolaeth Penderels neu asiantaeth cyflogres arall**

Mae Ymddiriedolaeth Penderels yn sefydliad a gomisiynir gan Gyngor Sir y Fflint i ddarparu cymorth i dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol.

Gall Ymddiriedolaeth Penderels a darparwyr cyflogres eraill ofalu am eich arian ar eich rhan. Er mai chi fydd yn rheoli sut y caiff yr arian ei ddefnyddio, gall y darparwr cyflogres fod yn gyfrifol am reoli'r cyfrif ac ymdrin â'r taliadau cysylltiedig. Mae'n debyg y bydd tâl yn cael ei godi am yr opsiwn hwn, felly cofiwch gymryd hynny i ystyriaeth.

## **Gwneud Taliadau**

Yn gyffredinol, dim ond dau beth fydd raid i chi dalu amdanynt fel rhan o'ch trefniant cyfuno arian:

### **Talu aelod o staff (Cynorthwy-ydd Personol neu aelod arall o staff)**

Er mwyn talu Cynorthwy-ydd Personol, bydd angen i chi gadw cofnod o'r oriau y mae wedi' gweithio a darparu taflen amser reolaidd i'ch darparwr cyflogau, fel y gallant brosesu'r cyflogau sy'n daladwy.

Os caiff eich gofal a'ch cymorth ei ddarparu gan weithiwr asiantaeth bydd gofyn i chi dalu anfonebau, fel arfer bob 4 wythnos.

### **Taliad am wasanaeth (megis llogi ystafell, llogi cludiant neu ordanysgrifiadau)**

Os ydych yn defnyddio'ch arian cyfun i dalu am wasanaeth arall neu offer, bydd angen i chi gael anfoneb. Os ydych yn rheoli'ch arian eich hun, byddwch yn gallu talu o'ch cyfrif neu'ch cyfrif ar y cyd eich hun. Os oes sefydliad fel Ymddiriedolaeth Penderels yn rheoli'r arian ar eich rhan, byddant yn talu'r anfoneb i chi.

Bydd angen i chi gadw cofnodion o'r ffordd yr ydych yn defnyddio'r arian er mwyn dangos eich bod wedi gwario'ch arian ar y pethau a gytunwyd ac a amlinellwyd yng nghynlluniau gofal a chymorth pob un o'r bobl sydd wedi cyfuno arian â chi. Mae'n bosibl y bydd rhywun o Gyngor Sir y Fflint yn gofyn i gael gweld y rhain.

Gallwch gyflogi rhywun i'ch helpu mewn dwy ffordd wahanol:

## 1. Cyflogi Cynorthwy-ydd Personol yn uniongyrchol

Gall Ymddiriedolaeth Penderels eich cynorthwyo i recriwtio Cynorthwy-ydd Personol a gwelir manylion y broses isod.

### Swydd ddisgrifiad / manylion yr unigolyn

Gan y byddwch chi a'r person/bobl y byddwch yn cyfuno'ch arian â nhw yn rhannu'r Cynorthwy-ydd Personol, mae'n bwysig eich bod yn cytuno ar y math o berson yr hoffech ei recriwtio (bydd hyn yn ffurfio'ch manylion unigolyn) a'r union dasgau yr hoffech iddynt eu cwblhau i'ch cynorthwyo (swydd ddisgrifiad).

### Hysbysebu

I ddod o hyd i Gynorthwy-ydd Personol, gallwch hysbysebu mewn papurau lleol, drwy'r ganolfan waith, ar wefan Ymddiriedolaeth Penderels, neu drwy ysgolion a cholegau lleol ac ati. Gallwch hefyd gael rhestr o Gynorthwywyr Personol sydd ar gael a'u manylion drwy'r gwasanaeth canfod cynorthwy-ydd personol lleol.

Yn ogystal â dweud wrth y darpar Gynorthwy-ydd Personol ble fydd y swydd, yr oriau y bydd disgwyl iddynt eu gweithio a faint o arian y byddant yn ei gael, dylech hefyd nodi pa weithgareddau y byddant yn eich cynorthwyo â nhw (drwy ddefnyddio'r swydd ddisgrifiad).

Defnyddiwch y manylion unigolyn i ddisgrifio wrth yr unigolyn beth fyddwch yn ei ddisgwyl ganddynt.

### Cyfweliadau

Ar ôl i unigolion wneud cais am y swydd bydd angen i chi benderfynu ar y cyd pa rai o'r ymgeiswyr yr hoffech eu cyfweld. Gall Ymddiriedolaeth Penderels eich paratoi ar gyfer y cyfweliad a'ch cynorthwyo yn y cyfweliad os oes angen.

### Cytundebau/contractau gwasanaeth a chyflogaeth

Ar ôl cytuno gyda'ch grŵp pwy hoffech ei gyflogi, gall Ymddiriedolaeth Penderels eich cynorthwyo i ganfod yn union beth yw'ch disgwyliadau o'r Cynorthwy-ydd Personol, beth fydd ei gyfrifoldebau, beth a ddisgwylir ohono/ohoni o ran oriau a faint y byddwch yn ei dalu iddo/iddi. Bydd Ymddiriedolaeth Penderels yn rhoi'r wybodaeth hon yn y contract fel bo pawb yn cytuno arni.

### Diogelwch

Fe'ch argymhellir i ofyn i unrhyw un yr ydych am ei gyflogi (yn dilyn cyfweliad) ddarparu geirdaon gan bobl sydd yn eu hadnabod yn dda, gan gynnwys pobl sydd wedi'u cyflogi yn y gorffennol os yw hynny'n bosibl.

Mae'n hanfodol hefyd eich bod yn gofyn iddynt gwblhau gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ariennir hwn gan Gyngor Sir y Fflint a bydd yn dweud a yw'r unigolyn yr ydych am ei gyflogi wedi troseddu yn y gorffennol.

### **Talu'ch Cynorthwy-ydd Personol**

Os ydych yn defnyddio darparwr cyflogres megis y gwasanaeth a gynigir gan Ymddiriedolaeth Penderels, y cyfan y bydd raid i chi ei wneud fydd anfon cofnod o'r oriau y mae'ch Cynorthwy-ydd Personol wedi'u gweithio bob mis.

Os ydych yn dewis peidio â defnyddio gwasanaeth cyflogres, bydd gofyn i chi gyfrifo'r treth a'r Yswiriant Gwladol y bydd angen ei ddidynnu o gyflog eich Cynorthwy-ydd Personol. Fe'ch cynghorir i siarad â RaThEM i sicrhau'ch bod yn gwneud hyn yn gywir.

### **2. Defnyddio Asiantaeth Gofal**

Mae'n well gan rai pobl ddefnyddio eu Taliad Uniongyrchol i dalu am ofalwr a anfonir o asiantaeth. Ceir rhestr o asiantaethau cofrestredig yn eich ardal ar wefan AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) sef [www.cssiw.org.uk](http://www.cssiw.org.uk)

## Cytundebau

Mae sawl math o gytundeb y gallech eu hystyried:

### **Cytundeb rhwng yr holl bobl yr ydych yn cyfuno arian â nhw**

Fel gydag unrhyw fater ariannol arall, awgrymwn eich bod yn creu cytundeb i sicrhau fod pawb yn deall y pethau canlynol yn glir:

- Faint o arian y mae pob unigolyn yn ei gyfrannu at y cytundeb.
- Sut y caiff yr arian ei wario (i ddiwallu anghenion a aseswyd a dyheadau a rennir)
- Manylion y gweithgareddau y caiff yr arian ei wario arnynt e.e. mynychu clwb cymdeithasol, cyflogi Cynorthwy-ydd Personol ac ati.
- Pa mor aml y bydd y gweithgaredd neu'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a ble.
- Terfynu'r cytundeb – sut y bydd y trefniant yn cael ei derfynu os nad yw pethau'n gweithio.

### **Cytundeb rhyngoch chi a'r unigolyn yr ydych yn ei gyflogi**

Os ydych yn cyfuno'ch Taliadau Uniongyrchol neu'ch arian eich hun i gyflogi rhywun, rhaid i chi sicrhau'ch bod yn cyflawni'ch cyfrifoldebau cyfreithiol fel cyflogwr.

Bydd y contract yn help i sicrhau'ch bod yn cyflawni'ch cyfrifoldebau fel cyflogwr, yn ogystal ag egluro i chi ac eraill yr ydych yn cyfuno â nhw, beth a ddisgwyllir gan bawb dan sylw. Gall y contract hwn gynnwys:

- Nifer yr oriau a'r amseroedd y bydd eich aelod o staff yn eu gweithio.
- Beth y byddant yn eich cynorthwyo i'w wneud.
- Faint o dâl y byddant yn ei dderbyn.

Gall Ymddiriedolaeth Penderels eich cynorthwyo i ddatblygu cytundebau a chontractau cywir ar gyfer eich sefyllfa chi.



## Cytundeb Taliadau Uniongyrchol Cyfun (Enghraifft)

**Dylid arwyddo'r Cytundeb hwn pan fo dau neu fwy o dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol yn dewis cyfuno'u harian i gyd neu'n rhannol i gyflawni eu canlyniadau unigol a gytunwyd.**

1. Mae pawb sy'n rhan o'r cytundeb hwn yn cydnabod y bydd y derbynwyr Taliadau Uniongyrchol y cyfeirir atynt isod yn cyfuno'u Taliadau Uniongyrchol i gyd neu'n rhannol, i ffurfio cyllideb i'w defnyddio ar y cyd i sicrhau eu datrysiadau dewisedig er mwyn cyflawni eu canlyniadau a gytunwyd.
2. Mae pawb sy'n rhan o'r cytundeb hwn wedi cytuno y bydd y derbynnydd Taliadau Uniongyrchol a enwir isod, fel yr unigolyn arweiniol, yn cymryd y cyfrifoldebau canlynol:-
  - (i) ymgymryd â rôl a chyfrifoldebau cyflogwr, boed yn uniongyrchol neu drwy Unigolyn Addas neu Ymddiriedolwr, er mwyn sicrhau gwasanaethau Cynorthwy-ydd/Cynorthwywyr Personol;
  - (ii) sicrhau fod pob polisi yswiriant perthnasol mewn lle.
3. Mae pawb sy'n rhan o'r cytundeb cyfuno arian yn cytuno cyfrannu'r symiau a gytunwyd ac y nodir isod o'u Taliadau Uniongyrchol personol. Rydym yn cydnabod nad yw'r cyfraniadau tuag at y gyllideb gyfun yn cynnwys gwariant personol, y bydd yr unigolion yn gyfrifol amdanynt.
4. Cytunwn y bydd yr unigolyn a enwir isod yn cymryd rôl Unigolyn Arweiniol yn y trefniant cyfuno hwn.
5. Cytunwn gynnal pob yswiriant perthnasol fel sy'n ofynnol gan yr Unigolyn Arweiniol.
6. Cytunwn ddefnyddio Cyfrif Cerdyn Taliadau Uniongyrchol i gynorthwyo â gweinyddu trefniant y gyllideb gyfun.
7. Cytunwn y bydd pob derbynnydd Taliadau Uniongyrchol sy'n rhan o'r Cytundeb hwn, yn gyfrifol ar y cyd am ba bynnag weithred, trafodyn, cost, hawliad, atebolrwydd, colled a gwariant sy'n codi o ganlyniad i unrhyw weithred neu hepgoriad sy'n codi o weithredu'r Cytundeb hwn. Yn unol â hynny, mae pob un ohonom yn cytuno digolledu'r derbynwyr Taliadau Uniongyrchol eraill mewn perthynas â hyn.
8. Os yw unrhyw dderbynnydd Taliadau Uniongyrchol yn dymuno tynnu'n ôl o'r Cytundeb, dylid rhoi pedair wythnos o rybudd i bawb arall fel bo penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn â pharhau i ddefnyddio'r gyllideb gyfun.

<b>Derbynnydd Taliadau Uniongyrchol Arweiniol</b>	
<b>Enw mewn print bras</b>	
<b>Llofnod</b>	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Cyfraniad wythnosol</b>	<b>£</b>

<b>Derbynnydd Taliadau Uniongyrchol</b>	
<b>Enw mewn print bras</b>	
<b>Llofnod</b>	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Cyfraniad wythnosol</b>	<b>£</b>

<b>Derbynnydd Taliadau Uniongyrchol</b>	
<b>Enw mewn print bras</b>	
<b>Llofnod</b>	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Cyfraniad wythnosol</b>	<b>£</b>

<b>Derbynnydd Taliadau Uniongyrchol</b>	
<b>Enw mewn print bras</b>	
<b>Llofnod</b>	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Cyfraniad wythnosol</b>	<b>£</b>

## Yswiriant

Rhaid i unrhyw un sy'n cyflogi Cynorthwy-ydd Personol drwy ddefnyddio'u Taliad Uniongyrchol gael yswiriant ar eu cyfer rhag ofn i bethau fynd o'i le. Er enghraifft, os caiff eich Cynorthwy-ydd Personol anaf wrth weithio neu os oes anghydfod o ryw fath yn codi.

Efallai y byddwch hefyd am ystyried yswiriant penodol ar gyfer gweithgareddau yr ydych yn cymryd rhan ynddynt fel rhan o'r trefniant cyfuno arian. Er enghraifft, os ydych yn sefydlu Menter Gymdeithasol sy'n cynnwys darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd, bydd angen i chi drafod gyda'ch cwmni yswiriant pa lefelau o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a fydd yn angenrheidiol.

Mae nifer o ddarparwyr yswiriant sy'n arbenigo mewn gwasanaethau ar gyfer derbynwyr Taliadau Uniongyrchol, felly fe'ch cynghorir i siarad â rhai ohonynt i ganfod beth allant ei gynnig a faint y byddant yn ei gostio. Gall Ymddiriedolaeth Penderels eich cynorthwyo i ganfod lefel yswiriant sy'n gywir i chi a'ch amgylchiadau.

Rhestrir tri chwmni a ddefnyddir yn aml ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau isod. Cofiwch fod rhai eraill ar gael hefyd.

Premier Care Insurance  
[www.premiercare.info](http://www.premiercare.info)  
0845 538 4709

Ellis Bates Insurance  
[www.ellisbatesgroup.com](http://www.ellisbatesgroup.com)  
01423 724 513  
01423 724 514  
01423 724 518

Fish Insurance  
[www.fishinsurance.co.uk](http://www.fishinsurance.co.uk)  
0800 012 6329

## Dechrau arni

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn mynd drwy bob cam y bydd angen i chi eu cymryd er mwyn cyfuno'ch arian gyda phobl eraill.

Camau gweithredu	Pethau i feddwl amdanynt	Pwy all fy helpu?	Tic
Penderfynu pa arian y byddwch yn ei gyfuno	Ydych chi'n derbyn Taliad Uniongyrchol, neu a ydych yn ariannu'ch anghenion gofal a chymorth mewn ffordd arall, er enghraifft, eich arian eich hun?  Ydych chi'n derbyn naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol</li> <li>• Cymorth gan y Tîm Iechyd Meddwl</li> <li>• Arian arall, er enghraifft, mynediad i'r gwaith, grant cyfleusterau i'r anabl, cronfa byw'n annibynnol, cymorth yn ymwneud â thai</li> </ul>	Ymddiriedolaeth Penderels  Fy Ymarferwr Gofal Cymdeithasol  Adran Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint	
Penderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu'ch anghenion drwy gyfuno arian gyda pherson neu bobl eraill.	A oes pethau y mae angen help arnoch i'w gwneud y gwyddoch y mae pobl eraill yn cael anhawster eu gwneud hefyd?  Ydych chi am gyflawni pethau y mae pobl eraill am eu cyflawni hefyd?	Fy Ymarferwr Gofal Cymdeithasol  Adran Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint	
Penderfynu pwy y gallech gyfuno'ch arian â nhw i ddiwallu'ch anghenion a'ch nodau	Meddwl am berson neu bobl sydd ag anghenion cymorth tebyg i chi (neu sut y gallech fynd ati i ddod o hyd i berson neu bobl ag anghenion cymorth tebyg i chi os nad ydych yn adnabod rhywun yn barod).  Meddyliwch am berson neu grŵp o bobl â diddordebau tebyg, sydd efallai am ymuno â gweithgareddau tebyg i chi.	Fy Ymarferwr Gofal Cymdeithasol  Adran Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint	
Penderfynu sut i gyfuno'ch arian ac ar beth yr ydych am wario'ch arian cyfun?	Beth yw'ch diddordebau cyffredin?  Ydych chi am wneud rhywbeth newydd, fel sefydlu grŵp cymdeithasol?  Sut allwch chi ddiwallu'ch anghenion cymorth drwy gydweithio?	Y bobl eraill yn y grŵp cyfuno arian  Adran Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint	

## Trefniadau terfynu

Pan fyddwch yn creu trefniant cyfuno arian gyda pherson neu bobl eraill, mae'n bwysig trafod trefniadau ar gyfer terfynu'r cytundeb. Mae'r rhesymau posibl dros hynny fel a ganlyn:

- Efallai y bydd lefel y cyllid yn newid, neu ni fyddwch bellach yn gymwys i gael arian ac nid ydych yn dymuno cyfuno'ch arian eich hun
- Efallai nad ydych bellach angen cymorth, neu efallai'ch bod yn chwilio am gymorth gwahanol
- Rydych am wneud rhywbeth gwahanol gyda'r arian
- Mae'r gweithgaredd yr oeddech yn ei wneud wedi dod i ben, er enghraifft cwrs grŵp coginio

Bydd y camau y bydd raid i chi eu cymryd er mwyn terfynu'ch trefniant yn amrywio'n dibynnu ar y ffordd yr ydych yn cyfuno'ch arian. Dylid defnyddio'r pwyntiau canlynol i'ch arwain; fodd bynnag, efallai na fydd pob un yn berthnasol i chi.

- Darllenwch y cytundeb cyfuno arian y gwnaethoch ei arwyddo gyda holl aelodau'r grŵp
- Os ydych yn cyflogi staff a bod eich trefniant cyfuno arian yn dod i ben, bydd raid i chi hysbysu'ch staff, a rhoi rhybudd iddynt. Llythyr yw hwn sy'n esbonio bod eu swydd yn dod i ben ac amcangyfrif o ddyddiad eu diwrnod olaf.
- Os oes gennych gyfrif banc a rennir, bydd angen cau hwn i lawr, ar ôl i unrhyw arian gael ei dynnu. Os ydych wedi bod yn cyfuno Taliadau Uniongyrchol, efallai y bydd raid i chi ddychwelyd hwn i Wasanaeth Cymdeithasol Sir y Fflint. Bydd gofyn i arian personol gael ei ddychwelyd i bob unigolyn a gyfranodd arian.

Mae Ymddiriedolaeth Penderels ar gael i ddarparu cyngor a chymorth i chi i ymdrin â'r holl drefniadau terfynu uchod.

## Templedau enghreifftiol

Canllaw yn unig yw'r templedau enghreifftiol a ddarperir, ac efallai y byddant yn eich helpu i feddwl am y pethau y bydd angen i chi ac aelodau eraill eich grŵp cyfuno arian eu trafod a'r penderfyniadau y bydd angen i chi eu gwneud.

Os ydych yn dymuno creu contractau cyfreithiol, dylech gael cyngor gan Ymddiriedolaeth Penderels neu Gyfreithiwr.

### Cytundeb Cyfuno Arian

Mae hwn yn gytundeb rhwng *[nodwch enwau'r bobl sy'n rhan o'r cytundeb]* ac mae'n nodi sut y byddwn yn gwario arian yr ydym yn ei gyfuno gyda'i gilydd i dalu am *[nodwch y gweithgaredd]*.

Mae'r gweithgaredd uchod yn cynnwys *[rhestrwch bopeth dan sylw. Er enghraifft costau Cynorthwy-ydd Personol, llogi lleoliad, defnyddio gwasanaeth lleol ac ati]*

Bydd y gweithgaredd hwn yn para *[rhowch amser penodol neu gyfnod amhenodol]*

Cyflogaeth *[dilëwch yr adran hon os nad ydych yn cyflogi rhywun]*

Er mwyn cyflawni'r gweithgaredd uchod byddwn yn cyflogi *[nodwch nifer y Cynorthwywyr Personol]* Bydd y Cynorthwy-ydd/Cynorthwywyr Personol hyn yn ein cynorthwyo gyda'r pethau canlynol *[nodwch y cymorth y bydd y Cynorthwy-ydd Personol yn ei roi i chi]*

Cyllid

Bydd pob aelod o'r grŵp cyfuno arian yn cyfrannu £ *[cyfanswm yr arian y bydd pob un ohonoch yn ei gyfrannu bob mis]*

Caiff hwn ei storio mewn cyfrif banc, a reolir gan *[nodwch enwau'r rheiny a fydd yn rheoli'r cyfrif]*

Y sawl a fydd yn gyfrifol am sicrhau fod pob aelod o staff a gyflogir yn talu treth ac yswiriant gwladol fydd *[nodwch enw'r unigolyn]*.

Cydweithio

Mae rôl pob aelod o'r grŵp fel a ganlyn *[rhestrwch enwau'r aelodau]*

Bydd *[enw]* yn gyfrifol am *[nodwch y rôl]*

Bydd *[enw]* yn gyfrifol am *[nodwch y rôl]*

Os oes rhywun yn anfodlon â'r cytundeb, byddwn yn *[nodwch sut y byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau fel grŵp]*.

Bydd y grŵp yn adolygu'r trefniant hwn drwy *[gyfarfod, galwad ffôn, neges e-bost]* bob *[nodwch pa mor aml y byddwch yn ei adolygu i sicrhau fod pawb yn fodlon â'r trefniant]*.

---

## Hysbysebu am staff

*[Manylion amdanoch]:* Mae grŵp o bobl yn chwilio am Gynorthwy-ydd Personol i'w cynorthwyo â *[nodwch y gweithgareddau]*.

Rydym wedi creu grŵp a fydd yn *[nodwch y gweithgaredd]* a bydd angen cymorth arnom i wneud hyn.

Rydym yn chwilio am Gynorthwy-ydd Personol a fydd yn ein galluogi i gynnal gweithgareddau a gynlluniwyd mor llwyddiannus ag sy'n bosibl. Hoffem i chi fod *[nodwch pa fath o berson yr hoffech ei gyflogi]*.

Byddwch yn cael £*[nodwch y swm]* yr awr a bydd angen i chi weithio *[nodwch nifer yr oriau]* yr wythnos.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw *[nodwch y dyddiad]*.

Rydym yn bwriadu cyfweld ar *[nodwch y dyddiad]*.

*[Dywedwch wrthynt sut i wneud cais, e.e. drwy gyflwyno CV] a [sut y gallant gysylltu â rhywun os oes ganddynt unrhyw gwestiynau].*

## Enghreifftiau Positif o Gyfuno Arian

Mae Tom yn 22 oed ac mae ganddo anabledd dysgu. Mae Tom yn byw gyda dau o bobl eraill ac yn cyfuno'i arian gyda nhw.

Tua diwedd ei gyfnod mewn coleg preswyl, dechreuodd Tom a'i deulu feddwl am y dyfodol a sut y gallai ddatblygu'r cynnydd yr oedd wedi'i wneud yn y coleg a pharhau i fyw bywyd llawn ac annibynnol. Yn hytrach na symud i ffwrdd, neu fyw gyda phobl nad oedd yn eu hadnabod, penderfynodd Tom a'i deulu ddod o hyd i opsiwn a fyddai'n ei alluogi i fyw'n agos at adref gyda'r ffrindiau yr oedd wedi'u gwneud yn y coleg.

Dechreuodd Tom a'i deulu ystyried yr opsiwn cyfuno arian ac ynghyd â grŵp o bobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, fe ddechreuon nhw lunio cynllun a fyddai'n eu galluogi i ariannu'r syniad hwn.

Gyda grŵp o ffrindiau a oedd â phlant ag anghenion tebyg i Tom, fe ddechreuon nhw chwilio am eiddo addas. Gweithiodd y teuluoedd yn agos gyda'r cyngor drwy weithiwr cymdeithasol Tom. Teimlai mam Tom y byddai rhannu cymorth yn arbed arian i'r awdurdod lleol, ond hefyd yn rhyddhau ychydig o arian i alluogi Tom i wneud gwahanol bethau.

Mae Tom yn bwriadu symud i'w gartref newydd gyda dau ffrind. Y bwriad yw cyfuno rhywfaint o'i daliad uniongyrchol gyda'i ffrindiau i dalu am y cymorth y byddant yn ei rannu. Maent am ddefnyddio staff o asiantaeth o'u dewis gan fod hynny'n ymddangos yn fwy syml iddyn nhw. Byddant yn defnyddio'r cymorth hwn ar gyfer eu gofal personol ac er mwyn mynd allan a gwneud pethau.

Bydd Tom yn gallu byw ei fywyd fel y mae'n dewis gan y bydd cyfuno ei daliadau uniongyrchol gyda'r rheiny sy'n rhannu tŷ ag ef yn gwneud hyn yn fforddiadwy. Mae Tom a'i ffrindiau'n bwriadu defnyddio'u harian mewn ffordd mwy creadigol a fydd yn eu galluogi i wneud mwy, a pharhau i ddysgu sgiliau bywyd a chymdeithasu.

Yr heriau y mae Tom wedi'u hwynebu yw dod o hyd i'r bobl gywir i rannu ei gartref â nhw, ond, ar y cyfan bydd cyfuno arian yn galluogi Tom i gael y gorau o'i Daliadau Uniongyrchol, i fyw'n annibynnol gyda ffrindiau a chael bywyd cymdeithasol llawn.

### **Grŵp Chwaraeon**

Dyma enghraifft o grŵp chwaraeon a chymdeithasol a gynhelir gan ddefnyddwyr iechyd meddwl. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar wneud ffrindiau a chymdeithasu, yn ogystal ag ystod o weithgareddau chwaraeon. Maent yn darparu cymorth cymdeithasol i'w gilydd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Sefydlwyd y grŵp pan roddwyd cyfle i bobl gyfuno'u taliadau uniongyrchol. Yn ogystal â chynnal asesiadau unigol i ganfod beth yw eu hanghenion unigol, mae'r awdurdod lleol yn cynnal asesiadau grŵp hefyd.

I sefydlu'r grŵp, aethant i ofyn am gymorth y swyddog arweiniol taliadau uniongyrchol. Unwaith yr oeddent yn barod i ddechrau, talodd yr awdurdod lleol yr arian a gytunwyd i'r cyfrif cymunedol a reolir ar eu rhan. Talodd hyn y costau sefydlu.



### Caffi

Sefydlwyd caffi cymunedol mewn ymateb i anghenion pobl ag anabledau dysgu a oedd angen profiadau ystyrlon â chymorth yn y gymuned.

Sefydlwyd y caffi gan riant a'i merch. Drwy ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol roeddent yn anelu at ddarparu profiad gwaith gwerthfawr. Yna cawsant help noddwr a oedd yn gweld potensial yn y syniad i greu menter gymdeithasol.

Ar hyn o bryd mae'r caffi'n rhoi cyfle i 8 o bobl weithio mewn amgylchedd caffi i wasanaethu'r gymuned mewn dau leoliad gwahanol, yn ogystal â darparu gwasanaethau arlwyyo allanol.

Mae'r caffi'n helpu pobl ag ystod eang o anabledau i werthfawrogi eu cyfraniadau eu hunain fel dinasyddion ac ar yr un pryd yn cynyddu eu sgiliau a'u rhydwdeithiau cymdeithasol.

### Drama

Cyfunodd grŵp o bobl anabl yn Norfolk eu Taliadau Uniongyrchol i ariannu a sefydlu grŵp drama.

Cynorthwywyd bob person gan y darparwr cymorth Taliadau Uniongyrchol i sefydlu eu Taliadau Uniongyrchol eu hunain ac edrych ar yr ochr gyfuno arian er mwyn diwallu eu hanghenion ar y cyd.

Unwaith i'r grŵp ddechrau gweithredu, roedd modd i dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol eraill brynu gwasanaethau'r grŵp drama drwy ddefnyddio'u harian, ac yn yr un modd gallai hunan arianwyr ymuno, gan dalu â'u harian eu hunain hefyd.

Cyngor Sir y Fflint – Adran Taliadau Uniongyrchol  
mark\_cooper@flintshire.gov.uk  
01352 701101

Ymddiriedolaeth Penderels  
www.penderelstrust.org.uk  
01352 706235

Gwasanaeth cymorth am ddim i bobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol yn Sir y Fflint.

Mae Penderels yn darparu cymorth ar bob agwedd ar ddod yn gyflogwr, o ganllawiau cyfraith cyflogaeth, cymorth i recriwtio Cynorthwy-ydd Personol yn ddiogel, paratoi contractau cyflogaeth a chynorthwyo unigolion i ddatrys problemau a allai godi.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)  
www.csiw.org.uk  
0300 7900 126

Mae AGGCC yn gyfrifol am gofrestru pob asiantaeth gofal yng Nghymru sy'n darparu gofal yng nghartrefi pobl, a sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau gofal a lles gofynnol.

Gwasanaethau Eiriolaeth Sir y Fflint  
www.flintshireadvocacy.co.uk  
01352 759332

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Sir y Fflint yn darparu ystod o wasanaethau eiriolaeth annibynnol i ddinasyddion Sir y Fflint.

ACAS (Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu)  
www.acas.org.uk  
08457 47 47 47

Mae gan ACAS amrywiaeth o wasanaethau a all helpu unigolion neu grwpiau o gyflogwyr i osgoi neu ddatrys problemau ac anghydfodau yn y gweithle.

**Mynediad i'r Gwaith:** Rhaglen cymorth cyflogaeth gan y Llywodraeth ar gyfer pobl ag anableddau.

**Anghenion a aseswyd:** Caiff eich anghenion a aseswyd eu diffinio yn ystod sgysiau â'ch Aseswr (megis Gweithiwr Cymdeithasol) am bethau y mae angen cymorth arnoch i'w gwneud. Rhaid i'ch Taliad Uniongyrchol gael ei ddefnyddio i drefnu gofal i ddiwallu'r anghenion hyn.

**Asesiad:** Cynhelir asesiad gan rywun o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, sef Gweithiwr Cymdeithasol fel arfer. Bydd eich aseswr yn gweithio gyda chi i bennu pa feysydd yn eich bywyd y mae angen cymorth ychwanegol arnoch i'w gwneud, beth yr hoffech ei gyflawni, a sut yr hoffech gael eich cynorthwyo i wneud hyn.

**Cydgysylltydd Gofal:** Os oes gennych anawsterau iechyd meddwl caiff eich gofal ei gydgysylltu gan gydgysylltydd gofal.

**Taliad Uniongyrchol:** Dyma'r arian sydd ar gael i chi i ddiwallu'ch anghenion gofal. Mae'r swm a roddir i chi'n seiliedig ar eich anghenion a aseswyd. Rhaid ei ddefnyddio i ddiwallu'r anghenion hyn, ond mae'n hyblyg a chi sy'n ei reoli.

**Gofal yn y cartref:** Caiff y gofal hwn ei ddarparu i chi yn eich cartref eich hun.

**Asesiad Ariannol:** Yn dibynnu ar incwm eich cartref, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi gyfrannu at rai costau gofal. Os ydych yn derbyn taliad uniongyrchol, ni fydd y swm a delir gan Wasanaeth Cymdeithasol Sir y Fflint yn cynnwys unrhyw gyfraniad a aseswyd y bydd angen i chi ei wneud.

**Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint:** Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yw enw'r gyfarwyddiaeth yng Nghyngor Sir y Fflint sy'n ymdrin ag anghenion gofal a chymorth dinasyddion Sir y Fflint.

**Cronfa Arian:** Ambell waith cyfeirir at eich taliadau uniongyrchol fel cronfa arian, ond gall hefyd gyfeirio at eich arian eich hun a ddefnyddir i dalu am eich gofal a'ch cymorth.

**Awdurdod Lleol:** Yr Awdurdod Lleol yw'r enw arall am y Cyngor. Nhw sy'n gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o'u dyletswydd.

**Cynorthwy-ydd Personol:** Eich Cynorthwy-ydd Personol yw'r sawl sy'n eich cynorthwyo yn y ffordd y mae eu hangen arnoch er mwyn diwallu'ch anghenion a aseswyd. Cyflogir eich Cynorthwy-ydd Personol gennych chi fel arfer a chaiff ei alw'n PA yn aml yn y Saesneg.

**Cyfuno arian:** Rhannu'r arian sydd ar gael i chi i gyd neu'n rhannol gydag eraill er mwyn diwallu anghenion neu ganlyniadau cyffredin.

**Gweithiwr Cymdeithasol:** Gweithiwr Cymdeithasol yw cynrychiolydd o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint sydd wedi'i hyfforddi i gynnal asesiad o'ch anghenion.

## Atodiad 1 – Taliadau Uniongyrchol

### Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Taliad Uniongyrchol yw arian gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i rywun sydd angen cymorth i fyw eu bywyd bob dydd mor annibynnol ag sy'n bosibl.

Bydd rhywun o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn asesu neu'n adolygu'ch anghenion gofal ac yn penderfynu a ydych yn gymwys i gael cymorth. Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn anelu at eich helpu i aros mor annibynnol ag sy'n bosibl, gan hynny, bydd pawb sy'n cael ei asesu fel rhywun sydd angen cymorth y telir amdano yn cael cyfle i dderbyn Taliad Uniongyrchol. Os nad ydych yn gymwys am gymorth ni fydd modd i chi gael Taliad Uniongyrchol.

### Sut allaf gael Taliad Uniongyrchol gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint?

Os nad ydych eisoes yn derbyn cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint bydd angen i chi ofyn am asesiad i ganfod a ydych yn gymwys i gael cymorth.

Yn Sir y Fflint gallwch ddechrau'r broses hon drwy ffonio'r Tîm Cyswllt Cyntaf ar 01352 702000. Yn dilyn sgwrs ffôn gyda chynrychiolydd o Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, mae'n bosibl y trefnir apwyntiad gan Weithiwr Cymdeithasol a fydd yn ymweld â chi i gynnal asesiad o'ch anghenion.

Defnyddir yr asesiad i benderfynu a yw'ch anghenion yn golygu'ch bod yn gymwys i dderbyn cymorth ac i gytuno ar y ffyrdd gorau o'ch galluogi i fyw'ch bywyd yn eich dull dewisedig.

Os ydych yn gymwys ac angen cymorth y telir amdano, cynhelir asesiad ariannol i weld a oes angen i chi gyfrannu unrhyw arian tuag at gost y ddarpariaeth gymorth.

Os oes gennych bryderon am eich iechyd meddwl dylech gysylltu â'ch meddyg teulu a fydd yn eich cyfeirio at y gwasanaeth priodol.

### Sut allaf wario fy Nhaliad Uniongyrchol?

Ar ôl i chi glywed eich bod yn gymwys am gymorth, caiff cynllun gofal a chymorth ei ddatblygu. Dogfen yw hon sy'n amlinellu'ch canlyniadau gofal a chymorth ac sy'n rhoi manylion ynglŷn â sut y caiff eich Taliad Uniongyrchol ei wario i'w cyflawni.

Caiff eich cynllun gofal a chymorth ei ddatblygu gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol, ac efallai yr hoffech ofyn i ffrindiau a theulu helpu hefyd. Gall eich cynllun gofal a chymorth gynnwys cymorth ffurfiol a 'chymorth naturiol' megis yr hyn a ddarperir gan ffrindiau, teulu, rhydwethiau anffurfiol ehangach, sefydliadau ac adnoddau cymunedol.

Mae cynllunio'ch cymorth fel hyn yn golygu'ch bod yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwysig ynglŷn â'r ffordd yr ydych am gael eich cynorthwyo.

Gallwch ddefnyddio'ch Taliad Uniongyrchol yn hyblyg cyn belled a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu'ch anghenion a aseswyd a'ch canlyniadau a gytunwyd (yr hyn yr ydych am ei gyflawni). Gallai hynny gynnwys:

Cymorth personol: cymorth i ymolchi, gwisgo, paratoi a choginio bwyd.

Mynediad i'ch Cymuned: Cymorth i ymuno â chlybiau, cyfarfod â phobl, cynnal cydberthnasau, mynd allan, cael gwaith neu fynediad at addysg.

Prynu offer: Prynu cymhorthion i'ch cynorthwyo i fyw bywyd bob dydd yn annibynnol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.  
This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.